

# Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

## 6. Cyflogi a rheoli pobl

### 6.17 Polisi ymddeol



Mae'r canlynol yn enghraifft o bolisi ymddeol, a dylid ei addasu ar gyfer eich mudiad. Canllaw yw yn unig, ac ni ddylid edrych arno fel datganiad awdurdodol o'r gyfraith.

## Polisi enghreifftiol

### 1. Cyflwyniad ac amcanion y polisi

Mae <enw'r mudiad> yn cydnabod bod ymddeol yn gyfnod o newid sylweddol ym mywyd unigolyn, ac mae angen cynllunio ar ran yr unigolyn.

Yn unol â deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail Oed, nid oes gan <enw'r mudiad> oedran ymddeol gorfodol. Ers 1 Hydref 2011 nid yw'r oedran ymddeol rhagosodedig statudol o 65 bellach ddim ar waith, felly, gall staff barhau i weithio os ydynt yn dymuno heb orfod gwneud cais i weithio'r tu hwnt i'r oedran hwn.

Amcanion y polisi Ymddeol a'r weithdrefn ymddeol yw:

- 1 Cynorthwyo aelod o staff sy'n ystyried ymddeol neu wedi penderfynu ymddeol ac amlinellu'r opsiynau sydd ar gael a'r cymorth y gellir ei ddisgwyl.
- 2 Galluogi gweithwyr i adael <enw'r mudiad> gydag urddas a pharch.
- 3 Helpu i gynnal perthynas dda yn y man gwaith gyda gweithwyr eraill;

### 2. Ymddeol

Bydd felly angen i aelod o staff sy'n penderfynu ymddeol ymddiswyddo o'i swydd, yn ysgrifenedig, gan roi'r hysbysiad gofynnol sydd yn ei contract cyflogaeth yn y modd arferol.

Mae'n helpu i ddeall bwriad aelodau o staff o ran eu gyrfa yn y dyfodol a'u cynlluniau ymddeol, cyn belled ag sy'n bosib, er mwyn galluogi <enw'r mudiad> i gynllunio'r gweithlu a chynorthwyo aelodau o staff wrth gynllunio eu gyrfa. Bydd <enw'r mudiad> yn trafod â phob aelod o staff, ni waeth beth yw eu hoedran, eu gobeithion ar gyfer eu gyrfa yn y tymor byr, canolig a hir.

Hoffem i aelodau o staff gymryd rhan mewn trafodaethau agored a thryloyw â'u rheolwyr llinell.

Cydnabyddir y gall bwriadau unigolion i ymddeol newid oherwydd amgylchiadau personol amrywiol ac ni weithredir yn ffurfiol ar unrhyw drafodaethau anffurfiol hyd nes y mae hysbysiad ymddiswyddo wedi'i roi.

### **Opsiynau cyn ymddeol**

Cydnabyddir y gallai fod ar aelodau o staff eisiau newid eu patrwm gweithio i gyd-fynd â'u hamgylchiadau unigol. Mae'n bosib felly cytuno ar batrwm gweithio hyblyg ni waeth a fwriedir i hyn arwain yn uniongyrchol at ymddeoliad llawn ai peidio.

Byddai angen i aelodau o staff sydd am weithio'n fwy hyblyg gyflwyno cais i weithio'n hyblyg.

### **Perfformiad gwael**

Os yw aelod o staff yn perfformio'n wael dylai'r rheolwr llinell drafod y peth â nhw i sefydlu achos. Gall methiant i ddelio gydag unrhyw berfformiad gwael gydag aelod o staff gan fod disgwyl iddynt ymddeol yn fuan fod yn wahaniaethol. Dylai rheolwyr llinell sefydlu rheswm dros berfformiad gwael, gan osod cyfnod ar gyfer gwelliant a chytuno pa hyfforddiant a datblygiad fyddai'n cynorthwyo'r aelod o staff i gyrraedd y disgwyliad busnes. Os nad yw'r perfformiad yn gwella ac mae'r rheolwr llinell wedi dilyn gweithdrefn perfformiad <enw'r mudiad>, gallant wedyn penderfynu diswyddo'r aelod o staff ar sail gallu.

## Gwybodaeth bellach

ACAS

Ffôn: 08457 474747

[www.acas.org.uk](http://www.acas.org.uk)

Age Positive


Ffôn: 0113 232 4444

[www.agepositive.gov.uk](http://www.agepositive.gov.uk)

### Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

<p><b>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru</b> <i>Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH</i> <b>Elusen Gofrestredig: 218093</b></p> <p><b>Ffôn:</b> 0300 111 0124      <b>help@wcva.cymru</b> <b>Ffacs:</b> 029 2043 1701      <b>www.wcva.cymru</b></p>	 <p>Ffôn: 0300 111 0124 <a href="http://www.wcva.cymru">www.wcva.cymru</a></p>
<p>Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli <b>Wedi ei ddiweddaru: 29/08/2014</b></p>	